
# PERTHYN

**Mehefin 2025** **3 3 7**




**Bydd gryf fel craidd dy blufyn, - caria'n llwyth**
**Yn ystwyth, ac estyn**
**Dy gân i'n dala ni'n dynn**
**Yn dy olau di-elyn.**

Mererid Hopwood

# Gair gan y Gweinidog




Ychydig wythnosau yn ôl fe ymwelais â un o gapeli Presbyteraidd Sir Drefaldwyn, capel cyfarwydd ers dyddiau fy ngofalaeth gyntaf yng Ngroesoswallt. Y pryd hwnnw roedd yn un o gapeli Henaduriaeth Trefaldwyn Isaf a Gofalaeth Llanfair Caereinion, a ninnau fel gweinidogion ar 'Sul Rota' yn gwasanaethu o bryd i'w gilydd.

Pwrpas yr ymweliad y tro yma oedd claddedigaeth a pharchu dymuniad yr ymadawedig i gael ei gladdu gyda'i briod. Bu'r angladd hwnnw yn 2020 ac ers hynny mae'r achos wedi dod i ben, ond mae'r fynwent yn daclus ac yn destun clod i gymuned ofalus a gweithgar. Tra'n parcio'r car fe'm goddiweddwyd â theimladau o hiraeth mawr wrth gofio'r pedair blynedd hapus a dreuliais yn yr henaduriaeth honno. Nid yn unig hynny ond hefyd y sylweddoliad bod 'newid' yn rhan o fywyd ac felly bywyd yr Eglwys. Mae pethau wedi newid ac yn dal i newid!

Wrth deithio'n ôl i Aberystwyth, cefais fy hunan yn ymresymu am hyn ac yn arbennig wrth feddwl am yr achos arbennig yna. Nodwedd unigryw y capel hwnnw yw ei faint, mor fychan, gyda'r 'set fawr' bron yn y pulpud ac eto roedd yn gymaint rhan o fywyd y gymuned. Ar y naill law, ar ochr y lôn ymhell o unrhyw bentref, bychan, ond ar y llaw arall, yn adlewyrchu ffordd o fyw lle'r oedd cymdeithas ac addoliad yn ganolog i fywyd unrhyw gymuned. Dyhead unigolion i fod gyda'i gilydd, ia i gymdeithasu ond hefyd i danlinellu a cheisio deall yr ochr luosog i'w ffydd a hynny mewn gweddi a moliant.

Fe ddywedodd rhywun unwaith bod Cristion sy'n dweud y gall o neu hi fodoli ar ei ben / ei phen ei hun yn croes-ddweud ei hun! Y mae dysgeidiaeth y Testament Newydd yn ein cyflwyno i'r ddealltwriaeth

o fod yn rhan o gymuned ond yn fwy na hynny y ddealltwriaeth o gymod ac felly'r alwad i anrhydeddu bywydau'n gilydd mewn gair a gweithred a meddwl.

Roedd yna bwrpas wastad i'r hen gapel bach yna yn Sir Drefaldwyn, a'r muriau yn llawn atgofion am fywyd sy'n prysur fynd yn ddieithr. Bellach mae technoleg wedi llenwi'n cartrefi gan arwain at fywydau lle mae'r byd ar stepan ein drws a gyda hynny, y peryg o fyw bywydau ynysig. Efallai fy mod yn gor-gyffredinoli, ond onid gall cyflwr o'r fath agor cil y drws ar ragfarn a hunangyfiawnder?

Ymhen ychydig fe fydd hi'n Bentecost, a'r alwad o'r newydd i ddathlu tywalltiad Ysbryd Glân Duw, ond hefyd y ddealltwriaeth o Eglwys fyd-eang. Gorfoleddwn yn y ddealltwriaeth ein bod yn rhan o hyn i gyd, yn un yng Nghrist, ac er bod yr Eglwys yn ein gwlad yn fychan, mae hi'n fyw ac yn dal i addoli ac yn dal i wasanaethu.

Yn ystod blynyddoedd fy ngweinidogaeth yng Ngroesoswallt fe ges y fraint o weinidogaethu ym mhentref Trefonen, un o bentrefi Sir Amwythig. Yn ogystal a chapel Carneddau, roedd eglwys Anglicanaidd yn y pentref a phob bore Mercher byddai person y plwyf yn cynnal oedfa Gymun. Yn aml iawn dim ond y Person fyddai'n bresennol ac oherwydd hynny fe'i holwyd am werth y weithred. Ei ateb syml oedd, "Efallai mai dim ond fi sy'n bresennol ond gan fy mod yn rhan o'r Gymuned Anglicanaidd, dim fi yn unig sy'n torri bara ar fore Mercher!"

Gwir, mae pethau'n newid, ac efallai bod yr Eglwys yn fychan yn ei gwlad, eto rydym yn dal yn eglwys ac yn rhan o rhywbeth ehangach, a phryd mae'r Crist Atgyfodedig yn ein plith, mae yna heddiw ac yfory!

Bendithion y Pentecost i chi gyd.

*Eifion.*

# Newyddion

*Cofion.* Anfonwn ein cofion at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ystod y mis diwethaf: Eileen Jones, Robert Haydon-Jones a Luned Williams. Hefyd anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi gofal neu eu cartrefi eu hunain.

*Llongyfarchiadau* i Mr Wynford Evans ar gyflawni 70 mlynedd fel blaenor yn yr Henaduriaeth. Cafodd ei longyfarch yn Sasiwn y De a gyfarfu yng Nhapel Bwlchgwynt a derbyniwyd tystysgrif i'w gyflwyno iddo.

*Cydymdeimlad:* Cydymdeimlwn ag Elin Mabbutt a'r plant, Ioan, Elan ac Alis ar farwolaeth Jeremy. Rydym yn cofio amdanynt fel teulu yn y dyddiau tywyll hyn.

Cydymdeimlwn â Bethan a Geoff Davies ar farwolaeth Mam Bethan, sef Mrs Mary Catherine Evans, Nefyn

Cydymdeimlwn â Meirion a Mary Morgan a'r teulu ar farwolaeth nith i Meirion sef Mrs Janice Davies, Amwythig, gynt o Benparcau.

Cydymdeimlwn hefyd â Lowri Schiavone a'r teulu ar farwolaeth ei mam-gu a hen-famgu y bechgyn, sef Mrs Myfi Evans, Cynwil Elfed, yng Nghartref Gofal Henllan.

Cydymdeimlwn hefyd â Helen Davies a'i merched Anna a Maia ar farwolaeth priod a thad, sef Dafydd Wyn Davies, Caerdydd - mab y diweddar Ann Davies a'i gŵr Haydn Wyn Davies.

Dymuna Bethan a Geoff Davies ddiolch yn fawr i Eifion ac Eleri am eu cefnogaeth yng nghynebrwng mam Bethan yn Morfa Nefyn a diolch o galon i aelodau'r capel am eu cefnogaeth a charedigrwydd.

# NEWYDDION EBENEZER



Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Eileen Jones yn yr ysbyty, hefyd at Susan Hughes.

Gwasanaethau mis Mehefin, dan ofal Eifion:

1 Mehefin - Gwasanaeth Cymun am 2.15. o'r gloch
15 Mehefin - Gwasanaeth yn Ebeneser am 2.15.

**Cyfanswm casgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (gan gynnwys bore Sul y Gymanfa Ganu) oedd £926.10. Diolch o galon i bawb am eu**

Golygyddion y mis hwn yw Sharon ac Arwel. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn GORFFENNAF at Hywel Lloyd erbyn dydd Sul, 20 Mehefin, os gwelwch yn dda.

# PRYSURDEB Y CLWB Sul

Yn ystod mis Mai buom yn rhannu'r storïau am Iesu yn cyfarfod a'r disgyblion yn dilyn yr atgyfodiad a dysgu am lawenydd Tomos pan ddaeth i'w adnabod. Roedd Iesu wedi dod i rannu ei gariad a'i dangnefedd. Mae'r geiriau yma i'w gweld ar luniau'r plant ac ar y faner *Tangnefedd i chi.*



Ar Sul cyntaf Wythnos Cymorth Cristnogol rhannwyd stori Aurelia yn Guatemala a'r modd y mae hi yn cynnal ei theulu a'i chymuned ac yn eu dysgu i dyfu bwydydd  sydd yn addas i'w tyfu er y sychder a'r llifogydd o ganlyniad i newid hinsawdd. Mae'r cymorth oddi wrth Cymorth Cristnogol yn ei galluogi i wneud hyn.










Ein tro ni yng Nghapel y Morfa oedd croesawu'r Gymanfa a daeth plant a ieuenctid Ysgolion Sul Gogledd Ceredigion ynghyd i addoli ac i ganu mawl o dan arweiniad Llio Penri a phob Ysgol Sul yn cyflwyno emyn. Roeddem yng ngofal y defosiwn agoriadol ac yn cyflwyno'r emyn *Glas glas blaned.* Diolch i Eifion am lywyddu ac am ei neges.

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth ac i'r rhieni am drefnu'r lluniaeth i'r plant a phaned i'r oedolion.

**Noson Goffi**
Trefnir Noson Goffi ac Adloniant gan y Clwb Sul yn Festri'r Morfa ar nos Wener ddiwedd Mehefin neu ddechrau Gorffennaf .(Dyddiad i'w gadarnhau) Elw at Apêl Manipur yn yr India (Apêl Llywydd y Sasiwn, Y Parch. Aneurin Owen)

A cofiwch y Sul Hwyl ...



# Heddwch yn pontio'r cenedlaethau




**Bydd gryf fel craidd dy blufyn, -**
**caria'n llwyth**
**Yn ystwyth, ac estyn**
**Dy gân i'n dala ni'n dynn**
**Yn dy olau di-elyn.**

Mererid Hopwood

Wrth ddathlu ymgyrch Deiseb Heddwch Merched Cymru 1923-24, mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd eleni yn pwysleisio bod angen, ganrif yn ddiweddarach, galw o'r newydd am heddwch byd-eang.

Mae'r neges honno wedi ysbrydoli'r Urdd i drefnu bod criw o fenywod ifanc yn dod at ei gilydd i lunio Neges Heddwch ac Ewyllys Da y mudiad eleni.

Cyhoeddwyd y neges 'Gweithred yw Gobaith' mewn 65 o ieithoedd, ac mae ffilm o'r neges hefyd wedi'i chreu gan yr animeiddwraig Efa Blosse-Mason.

Bydd yr Urdd hefyd yn cynnal digwyddiad arbennig yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, ble mae Deiseb Heddwch 1923-24 yn rhan o arddangosfa 'Hawlio Heddwch' ar hyn o bryd.

Er mwyn creu'r neges, fe gynhaliwyd gweithdy arbennig i ferched o blith staff, prentisiaid a gwirfoddolwyr yr Urdd, ynghyd â merched

sydd wedi symud yma a gwneud Cymru yn gartref newydd, ac yn astudio ar gwrs ESOL (dysgwyr Saesneg fel ail iaith) yng ngholeg Caerdydd a’r Fro.

Roedd teulu Shatw Ali wedi ffoi o Gwrdistan, ac mae hi yn un o'r rhai wnaeth gyfrannu at y neges. Mae hi wedi byw yng Nghymru am bron i ddwy flynedd. ‘Roedd fy mam arfer dweud y stori am sut y bu rhaid iddi hi a'i theulu ddianc oherwydd bod arfau cemegol yn cael eu gollwng ar y dref lle roedden nhw'n byw,’ meddai. ‘Roedd y stori yn un o'r rhai mwya' trasig dwi 'di glywed yn fy mywyd.’


Oherwydd profiad ei theulu mae Shatw yn dweud ei bod yn dal i gredu mewn heddwch ac yn obeithiol y bydd modd sicrhau heddwch byd-eang.

‘Mae'r neges yn help i roi gobaith i bobl dros y byd bod heddwch yn bosib a'n bod ni yn meddwl amdanyn nhw,’ meddai. ‘Mae Cymru wedi helpu fi i deimlo bod heddwch yn bosib ac mae cwrdd â'r menywod yma yn y gweithdy a dysgu am y ddeiseb heddwch wedi g'neud i fi deimlo yn hapus a diolchgar fy mod i'n byw yma.’

Yn ystod y gweithdy bu’r merched yn sôn am eu profiadau o heddwch – a’r diffyg heddwch ynghynt ym mywydau ambell un, gan gynnwys rhai o Afghanistan, Sudan, Somalia a Bangladesh.

Dywed cyfarwyddwr creadigol y neges, Casi Wyn, fod ‘treulio amser yn pontio’r ddeiseb hanesyddol ysgrifennwyd yn ôl yn 1924, gyda gweledigaeth merched Cymru heddiw, yn ysbrydoledig.’

Mae Prif Weinidog Cymru wedi cefnogi’r neges eleni. ‘Mae’r neges yn adlewyrchiad o uchelgais pobl ifanc Cymru ac yn alwad i arweinwyr y byd i weithredu, gyda’r nod o anelu at ddyfodol gwell i bob un ohonom,’ meddai. ‘Yn fwy nag erioed, rwy’n annog pawb i ymgysylltu â’r neges a helpu i sicrhau bod lleisiau ein pobl ifanc yn cael eu clywed ledled y byd.’


NEGES
HEDDWCH
AC
EWYLLYS DA
2025
15.05.2025
TLODI
Urdd
Mae pobl ifanc sy'n profi tlodi
yn gwybod y gwir.

Ni fel coed sy'n plygu
ein cyrff tuag at y goleuni.

Mae gennym wreiddiau
sy'n ymestyn
yn ddwfn drwy galon
ein cymunedau.

Mae pawb yn haeddu
byw mewn cymuned
sy'n lleddfu ein dagrau.

Dyma ein hawl.
Dyma ein bywydau.
Dyma ein llais.

Mae'n cymryd pentre'
i fagu plentyn.


Ben bore,
bydd y niwl yn clirio,
bydd y byd yn deffro.
Bydd y byd yn gwrando.

Bydd deilen newydd yn agor.
Bydd gobaith.
Byddwch yn gwrando ar ein llais.

Rhaid edrych
ar ôl y bobl ifanc
sy'n dod ar
ein hôl.

Mae'n cymryd pentre'
i fagu plentyn.
Dyma ein hawl.

Byddwch yn bentref i ni.




## Gwireddu: Defnyddio momentwm prosiect Hawlio Heddwch, Deiseb Menywod Cymru, i greu byd gwell.

Drwy gydol 2024, bu pobl ledled Cymru yn ymwneud â stori anhygoel Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923-1924. Dathlwyd ei chanmlwyddiant mewn arddangosfeydd, gweithdai creadigol a sgyrsiau a chyda'r gamp anhygoel o drawsygrifio pob un o'r 390,296 enw sydd arni.

Ry'n ni'n parhau i gofio a dathlu ymdrechion menywod y ganrif ddiwethaf, ond yn wyneb y gwrthdaro a'r anghydfod sydd yn ein byd, rhaid gofyn beth yw'r camau y gallwn ni fel unigolion a chymunedau eu cymryd i wireddu'r uchelgais o greu 'byd di-ryfel'?

Dyma'r hyn y byddwn yn ei drafod yn y cyfarfod undydd hwn. Bydd yn gyfle i ni ddod at ein gilydd, dysgu gan eraill, a rhannu syniadau, boed fach neu fawr, am sut i wireddu'r uchelgais hon.

Byddem wrth ein bodd pe gallech ymuno â ni. Ni chodir tâl a darperir cinio a lluniaeth. Y cyntaf i'r felin fydd hi gan fod llefydd yn gyfyngedig. Felly defnyddiwch y ddolen Eventbright i gofrestru, ac i dderbyn rhagor o wybodaeth wrth i'r trefniadau gael eu cadarnhau.

Cysylltwch â Ffion Fielding ar ffionfielding@wca.org.uk gydag unrhyw gwestiynau.


# Gweddi'r Pab Leo IX

*Cyfieithiad Aled Davies, Chwilog*

Frodyr, chwiorydd …
Rwy'n siarad â chi,
yn enwedig y rhai ohonoch nad ydych yn credu mwyach,
nad ydych yn gobeithio mwyach,
nad ydych yn gweddïo mwyach,
oherwydd eich bod yn credu bod Duw wedi eich gadael.
Rwy'n siarad â chi,
y rhai sydd wedi blino ar sgandalau'r eglwys,
ar gamddefnyddio pŵer,
ar dawelwch Eglwys,
Eglwys sydd weithiau'n ymddangos yn debycach i balas nag i gartref.
Roeddwn i hefyd yn ddig gyda Duw.
Gwelais i hefyd bobl dda yn marw, plant yn dioddef,
neiniau a theidiau'n crio heb fedru cael meddyginiaeth.
Ac oedd …
roedd yna ddyddiau pan oeddwn yn gweddïo
ac yn teimlo adlais yn unig.
Ond yna fe wnes i ddarganfod rhywbeth:
nid yw Duw yn gweiddi.
Sibrwd y mae Duw.
Ac weithiau mae'n sibrwd o'r mwd, o boen,
drwy nain sy'n eich bwydo heb fod ganddi ddim.
Nid wyf yn dod i gynnig ffydd berffaith i chi.
Rwy'n dod i ddweud wrthych mai taith i'w cherdded yw ffydd,
gyda cherrig, pyllau dŵr, a chwtshys annisgwyl ar hyd y daith honno.
Nid wyf yn gofyn i chi gredu ym mhopeth.
Rwy'n gofyn i chi beidio â chau'r drws.

Rhowch gyfle i'r Duw sy'n aros amdanoch heb eich barnu.
Offeiriad a welodd Dduw yng ngwên
gwraig a gollodd ei mab ydw i ...
ac eto roedd hi'n paratoi bwyd i eraill.
Newidiodd hynny fi.
Felly, os ydych chi wedi'ch torri, os nad ydych chi'n credu,
os ydych chi wedi blino ar y celwyddau ...
dewch beth bynnag.
Gyda'ch dicter, eich amheuon,
eich holl ofidiau a'ch cleisiau.
Fydd neb yma'n gofyn am gael gweld eich cerdyn gwahoddiad.
Oherwydd bydd yr Eglwys hon, cyhyd ag y byddaf yn anadlu,
yn gartref i'r digartref, ac yn orffwysfa i'r blinedig.
Nid oes angen milwyr ar Dduw.
Brodyr [a chwiorydd] sydd eu hangen arno.
Ac rydych chi, ie, rydych chi ...
yn un ohonyn nhw.

Robert Prevost (Leo XIV)








Yn y Sasiwn a gynhaliwyd yng nghapel Bwlchgwynt, Tregaron ar 8 Mai, llongyfarchwyd blaenoriaid a oedd yn dathlu cyfnod hir o wasanaeth. Yn eu plith roedd Wynford Evans, Maes Gogerddan, sydd wedi cyflawni 75 mlynedd fel blaenor yn yr Henaduriaeth, record anghyffredin iawn. Cafodd ei ethol yn flaenor yn Bethlehem, Cwmerfyn yn 1949 a'i ordeinio yn 1950. Nid oedd Wynford yn gallu bod yn bresennol i dderbyn ei dystysgrif, ond fe'i cyflwynwyd iddo ychydig ddyddiau yn ddiweddarach. Mae Wynford, sydd bellach yn 97 oed, yn dal i fwynhau **Perthyn** ac yn cymryd diddordeb byw yn hanes pobl y Morfa. Anfonwn ein cofion a'n llongyfarchiadau gwresog ato.

# GWEDDI

*Plant mewn Angen*

Rydw i'n ffodus:
rydw i'n gallu gweld;
rydw i'n gallu clywed;
rydw i'n gallu defnyddio fy nwylo;
rydw i'n gallu rhedeg;
rydw i'n berchen ar gorff iach:
Arglwydd diolch am y cyfan.

Mae rhai plant yn ddall;
mae rhai plant yn fyddar;
mae rhai plant yn methu â dal pensil neu frws paent;
mae rhai plant yn treulio'u bywyd mewn cadair olwyn;
mae rhai plant yn treulio amser hir mewn ysbytai:
Arglwydd, cofia hwy'n drugarog.

Rydw i'n ffodus:
rydw i'n byw mewn cartref cysurus;
rydw i'n gwisgo dillad cynnes;
rydw i'n cael digon o fwyd;
rydw i'n byw mewn gwlad heddychlon:
Arglwydd, diolch am y cyfan.

Mae plant yn cael eu gorfodi i fyw ar y stryd
mewn rhai gwledydd;
mae plant ifanc yn cael eu gorfodi i weithio'n galed
mewn rhai gwledydd;
mae plant yn newynu am fod y cynhaeaf wedi methu
mewn rhai gwledydd;
mae plant yn cael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi
am fod rhyfeloedd mewn rhai gwledydd:
Arglwydd, cofia hwy'n drugarog.

Cyflwynwn hwy oll i sylw dy Fab, Iesu Grist,
Cyfaill plant bob gwlad.

Amen

Ellen Wyn Jones allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

# Suliau

## Blaenor y mis: Dr Rhidian Griffiths

1 Mehefin – Eifion Roberts
8 Mehefin – Eifion Roberts
15 Mehefin – Eifion Roberts
22 Mehefin – Aled Davies
29 Mehefin – Bronwen Morgan

**Blodau**
1 Mehefin – Glenys James
8 Mehefin – Eifion ac Alwen Roberts
15 Mehefin – Ifor a Valmai Davies
22 Mehefin – Rhys a Jenny Jones
29 Mehefin – Ann, Lewis a Hywel Jones

## Ebenezer am 2:15 dan arweiniad ein Eifion

1 Mehefin - Gwasanaeth Cymun
15 Mehefin

Astudiaeth Ffydd a Phaned –
prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Cymdeithas Gweddi a Choffi –
bore Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom

**Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn Eglwys Dewi Sant**

Bydd Cinio Bara a Chaws mis Mehefin yn cael ei gynnal yn Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon, ar **ddydd Llun, yr ail o Fehefin**, a hynny rhwng **12.00 ac 1.30 o'r gloch.**

Dewch i gefnogi!

Croeso cynnes i bawb!